



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Ymchwiliad gorfodi safonau: Adroddiad a hysbysiad penderfynu terfynol

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag adran 73 ac adran 74 Mesur y
Gymraeg (Cymru) 2011

Cynhaliwyd yr ymchwiliad i amheuaeth o fethiant i gydymffurfio â safonau a
bennir gan Weinidogion Cymru yn unol ag adran 71 ac Atodlen 10 Mesur y
Gymraeg (Cymru) 2011

Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen (y Cyngor)

Rhif achos: CS1061



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Cefndir

Prif nod Comisiynydd y Gymraeg, sefydliad annibynnol a grëwyd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gwneir hyn trwy ddwyn sylw at y ffaith fod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru, trwy osod safonau ar sefydliadau, a thrwy reoleiddio cydymffurfiaeth â Mesur y Gymraeg. Bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at sefydlu hawliau i siaradwyr Cymraeg.

Bydd dwy egwyddor yn sail i waith y Comisiynydd:

- ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru;
- dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Manylion cyswllt

- Ffôn: 0345 6033 221
 - E-bost: post@comisiynyddygyymraeg.cymru
 - Gwefan: comisiynyddygyymraeg.cymru
 - Post: Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd
CF10 1AT
-



Cyd-destun deddfwriaethol

Rhan 4 Mesur y Gymraeg

- Mae Rhan 4 Mesur y Gymraeg yn gosod fframwaith cyfreithiol er mwyn gosod dyletswydd ar rai sefydliadau i gydymffurfio ag un neu fwy o safonau mewn perthynas â'r Gymraeg. Gelwir sefydliadau sy'n ddarostyngedig i safonau yn 'bersonau perthnasol'. Ceir safonau yn y meysydd canlynol:

 - cyflenwi gwasanaethau;
 - llunio polisi;
 - gweithredu;
 - hybu;
 - cadw cofnodion.
- Mae'r dyletswyddau sy'n deillio o'r safonau'n golygu bod rhaid i bersonau perthnasol beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y dylent hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg.
- Mae hysbysiadau cydymffurfio a roddir i bersonau perthnasol gan y Comisiynydd dan Ran 4 Mesur y Gymraeg yn pennu'r safonau penodol y mae'n ofynnol cydymffurfio â hwy, ynghyd â'r diwrnodau oddi ar bryd y mae'n ofynnol cydymffurfio â'r safonau hynny neu gydymffurfio â'r safonau hynny mewn modd penodol ('diwrnodau gosod'). Bydd copïau ar wefan y Comisiynydd o'r hysbysiadau cydymffurfio sydd mewn grym.
- Tra bydd hysbysiad cydymffurfio sy'n benodol i berson perthnasol mewn grym, bydd yn ofynnol iddo gydymffurfio â'r safonau a bennwyd ynddo.

Rhan 5 Mesur y Gymraeg

- v. Mae Rhan 5 Mesur y Gymraeg yn rhoi swyddogaethau rheoleiddiol statudol i'r Comisiynydd er mwyn sicrhau bod personau perthnasol yn cydymffurfio â'u dyletswyddau. Gall dyletswyddau gynnwys cydymffurfio â safonau'r Gymraeg (fel y nodir uchod), ac hefyd ofyniadau a osodir ar bersonau gan y Comisiynydd yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg yn sgil methiant i gydymffurfio â gofyniad perthnasol. Mae Polisi Gorfodi'r Comisiynydd yn rhoi cyngor a gwybodaeth ynghylch sut y bydd y Comisiynydd yn arfer y swyddogaethau rheoleiddiol hynny.
- vi. Y swyddogaethau rheoleiddiol sy'n deillio o Ran 5 Mesur y Gymraeg yw:
- ystyried ai i ymchwilio ai peidio os gwneir cwynion ynghylch ymddygiad personau perthnasol;
 - ymchwilio i amheuon o fethiant gan bersonau perthnasol i gydymffurfio â dyletswyddau, dyfarnu ar ymchwiliadau a llunio adroddiadau ar ymchwiliadau;
 - ystyried ai i weithredu ymhellach (drwy roi argymhellion neu gyngor) ai peidio os yw ymchwiliad yn canfod na fu methiant i gydymffurfio;
 - cymryd un o'r tri cham isod os yw ymchwiliad yn canfod y bu methiant i gydymffurfio:
 - peidio â gweithredu ymhellach;
 - gwneud un neu fwy o'r pethau a ganlyn:
 - ei gwneud yn ofynnol i'r person perthnasol baratoi cynllun gweithredu at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd;
 - ei gwneud yn ofynnol i'r person perthnasol gymryd camau at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd;
 - rhoi cyhoeddusrwydd i fethiant y person perthnasol i gydymffurfio â'r gofyniad perthnasol;
 - ei gwneud yn ofynnol i'r person perthnasol roi cyhoeddusrwydd i'r methiant i gydymffurfio â'r gofyniad perthnasol;
 - gosod cosb sifil ar y person perthnasol.
 - gwneud un neu fwy o'r pethau a ganlyn:
 - rhoi argymhellion i'r person perthnasol neu i unrhyw berson arall;
 - rhoi cyngor i'r person perthnasol neu i unrhyw berson arall;
 - ceisio ymrwymo mewn cytundeb setlo gyda'r person perthnasol.
 - gwneud ceisiadau i lys sirol am orchmynion llys i orfodi cydymffurfiaeth;
 - cydymffurfio â dyletswyddau sy'n deillio o apelau i Dribiwnlys y Gymraeg a cheisiadau am adolygiadau gan y Tribiwnlys;
 - llunio dogfen polisi gorfodi;
 - creu a chynnal cofrestr camau gorfodi.
- vii. Bydd y Comisiynydd yn dilyn y prosesau statudol gofynnol wrth arfer ei swyddogaethau rheoleiddiol.
- viii. Mae Polisi Gorfodi'r Comisiynydd yn cynnwys gwybodaeth lawn ynghylch y ffordd y bydd y Comisiynydd yn arfer ei swyddogaethau rheoleiddiol dan Ran 5 Mesur y Gymraeg.
-

Cynnwys

1	Cylch gorchwyl	1
2	Y dystiolaeth a gymerwyd yn ystod yr ymchwiliad	4
3	Cydymffurfiaeth â safon 61: Asesiad, canfyddiadau a dyfarniad	8
4	Cydymffurfiaeth â safon 62: Asesiad, canfyddiadau a dyfarniad	11
5	Cydymffurfiaeth â safon 63: Asesiad, canfyddiadau a dyfarniad	13
6	Cydymffurfiaeth â safon 88, 89, a 90: Asesiad, canfyddiadau a dyfarniad	14
	Hysbysiad penderfynu	20

1 Cylch gorchwyl

Amheuaeth o fethiant i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg

- 1.1 Ar 28/09/2022 derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys.
- 1.2 Mae'r achwynydd yn honni fod y Cyngor wedi gosod nifer o arwyddion enwau stryd uniaith Saesneg yn ardal y Cyngor. Mae'r achwynydd wedi rhoi lluniau o rai enghreifftiau o'r arwyddion uniaith Saesneg hyn, yn ogystal â lluniau o rai dwyieithog er cymhariaeth.
- 1.3 Mae'r lluniau o'r enghreifftiau a ddarparwyd yn cynnwys arwyddion sydd â'r testun:
 - a. West Roedin – Leading to – Offway and East Roedin – Shop
 - b. Gorllewin Roedin yn arwain i Offway a Dwyrain Roedin – Siop / West Roedin Leading to Offway and East Roedin – Shop
 - c. Teynes – Leading to / Yn arwain i – Ladybench
 - ch. Teynes – Leading to – Ladybench
 - d. Jule Road
- 1.4 Mae'r lluniau yn dangos fod rhai o'r arwyddion yn arddangos enwau strydoedd yn uniaith Saesneg, a bod testun nad yw'n rhan o enw'r stryd, hefyd yn uniaith Saesneg.
- 1.5 Mae'r achwynydd hefyd yn honni na wnaeth y Cyngor ystyried yr effaith ar y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, pan newidiodd y polisi enwi strydoedd i un o beidio cyfieithu enwau strydoedd uniaith Saesneg i'r Gymraeg.
- 1.6 Yn wreiddiol, penderfynais beidio cynnal ymchwiliad i'r honiadau yma, ond yn dilyn cais yr achwynydd am adolygiad gan Dribiwnlys y Gymraeg o fy mhenderfyniad, fe ail ystyriais, a'i newid i benderfyniad o agor ymchwiliad.

Cadarnhau cyfrifoldeb am y gwasanaeth perthnasol

- 1.7 Ysgrifennodd fy swyddogion at y Cyngor ar 03/10/2022 er mwyn cadarnhau ai'r Cyngor oedd yn gyfrifol am y gwasanaeth y cwynwyd amdano.
- 1.8 Derbyniais ymateb gan y Cyngor ar 03/10/2022 yn derbyn cyfrifoldeb am y mater. Dywedodd ei fod yn cyfieithu enwau strydoedd hyd at ddechrau 2018, pan ddiwygiwyd y polisi. Y polisi newydd hwnnw yw bod arwyddion strydoedd i gynnwys un enw yn unig, a hwnnw yw'r enw cofrestredig swyddogol. Bydd unrhyw enwau strydoedd newydd yn Gymraeg neu'n Saesneg, ond bod pwyslais ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Safonau perthnasol

- 1.9 Mae'r Cyngor dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau isod, ac roedd dan ddyletswydd i wneud hynny ar y dyddiad sy'n berthnasol i'r gŵyn:

Safon 61

Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd (gan gynnwys arwyddion dros dro) rhaid i unrhyw destun sy'n cael ei arddangos ar yr arwydd gael ei arddangos yn Gymraeg (pa un ai ar yr un arwydd sy'n arddangos y testun cyfatebol yn Saesneg neu ar arwydd ar wahân); ac os yw'r un testun yn cael ei arddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi beidio â thrin y testun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg.

Diwrnod gosod: 30/3/2016

Safon 62

Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd (gan gynnwys arwyddion dros dro), a bod yr arwydd hwnnw'n cyfleu yr un wybodaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg, rhaid i'r testun Cymraeg gael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.

Diwrnod gosod: 30/3/2016

Safon 63

Rhaid ichi sicrhau bod y testun Cymraeg ar arwyddion yn gywir o ran ystyr a mynegiant.

Diwrnod gosod; 30/3/2016

Safon 88

Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried pa effeithiau, os o gwbl (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi yn eu cael ar –

- (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Diwrnod gosod: 30/9/2016

Safon 89

Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel y byddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar –

- (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Diwrnod gosod: 30/9/2016

Safon 90

Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel na fyddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar –

- (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Diwrnod gosod: 30/9/201

Penderfyniad i ymchwilio

- 1.10 Ar sail yr uchod, penderfynais gynnal ymchwiliad dan adran 71 Mesur y Gymraeg er mwyn penderfynu a fu methiant gan y Cyngor i gydymffurfio â'r safonau a nodwyd. Rhoddais hysbysiad o'r penderfyniad i ymchwilio, ac o'r cylch gorchwyl arfaethedig, i'r Cyngor ar 12/06/2023.
- 1.11 Rhoddais hysbysiad o gylch gorchwyl terfynol yr ymchwiliad i'r Cyngor ar 05/07/2023. Gellir gweld y cylch gorchwyl terfynol fel atodiad i'r adroddiad hwn.

2 Y dystiolaeth a gymerwyd yn ystod yr ymchwiliad

Hysbysiad tystiolaeth

2.1 Ar 05/07/2023, rhoddais hysbysiad tystiolaeth i'r Cyngor. Roedd yr hysbysiad tystiolaeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ddarparu'r dystiolaeth ganlynol:

Gwybodaeth a dogfennau

1. Beth yw'r enw swyddogol sydd wedi ei gofrestru yn unol ag adrannau 17 ac 18 o Ddeddf Iechyd Cyhoeddus 1925 ar gyfer y strydoedd canlynol:
 - (a) West Roedin
 - (b) Offway
 - (c) East Roedin
 - (ch) Teynes
 - (d) Ladybench
 - (dd) Jule Road
2. Pryd gafodd yr arwyddion sy'n sail i'r ymchwiliad hwn eu gosod, neu eu hadnewyddu ddiwethaf? Mae lluniau o'r arwyddion wedi eu cynnwys gyda gohebiaeth yr achos.
3. Eglurwch pam fod y testun 'leading to' yn ymddangos yn uniaith Saesneg ar rai o'r arwyddion ond fod y testun dwyieithog 'leading to / yn arwain i' yn ymddangos ar eraill.
4. Eglurwch pam fod rhai arwyddion yn arddangos fersiynau Cymraeg a Saesneg o enwau strydoedd (Gorllewin Roedin / West Roedin a Dwyrain Roedin / East Roedin), ac eraill yn dangos fersiwn Saesneg yn unig (West Roedin ac East Roedin).
5. Eglurwch pryd y cafodd polisi enwau strydoedd cyfredol y Cyngor ei lunio, a phryd y cafodd ei adolygu neu ei addasu ddiwethaf.
6. Darparwch gopi o fersiwn cyfredol y Cyngor o'r polisi enwau strydoedd, a chopi o'r fersiwn blaenorol.
7. Eglurwch pa adolygiadau / addasiadau wnaed i'r polisi o safbwynt:
 - (a) Rhoi enwau Cymraeg a/neu ddwyieithog ar strydoedd sydd eisoes yn bodoli
 - (b) Rhoi enwau Cymraeg a/neu ddwyieithog ar strydoedd newydd
 - (c) Arwyddion sy'n arddangos enwau'r strydoedd
8. Rhwch fanylion gyda thystiolaeth ategol, o sut wnaeth y Cyngor wrth adolygu neu addasu ei bolisi enwi strydoedd, ystyried pa effeithiau, os o

gwbl (pa un ai yw'r rhieni'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi yn eu cael ar -

(a) gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a

(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

9. Rhowch fanylion gyda thystiolaeth ategol, o sut wnaeth y Cyngor, wrth adolygu neu addasu ei bolisi enwi strydoedd, ystyried sut y gall newid y polisi fel y byddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar -

(a) gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, ac i

(b) beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

10. Rhowch fanylion gyda thystiolaeth ategol, o sut wnaeth y Cyngor, wrth addasu ei bolisi enwi strydoedd, ystyried sut y gellid newid y polisi oedd eisoes yn bodoli fel na fyddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar -

(a) gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, ac i

(b) beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

11. Darparwch unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth ychwanegol yr ydych am i'r Comisiynydd ei ystyried wrth ddyfarnu ar eich cydymffurfiaeth â safonau 61, 62, 63, 88, 90 a 90.

2.2 Mewn ymateb, derbyniais dystiolaeth gan y Cyngor ar 03/08/2023.

2.3 Ystyriais yr holl wybodaeth a gyflwynwyd mewn ymateb i'r hysbysiad tystiolaeth.

2.4 Ystyriais hefyd wybodaeth a gyflwynwyd gan Y Cyngor ar 22/08/2023, oedd yn dangos lluniau o arwyddion wedi eu addasu.

Y dystiolaeth a dderbyniwyd

2.5 Mewn ymateb i'r cwestiwn cyntaf, cadarnhaodd y Cyngor bod yr enwau ar yr arwyddion wedi eu cofrestru dan Ddeddf Iechyd Cyhoeddus 1925 fel ag y maent i'w gweld yn y cwestiwn. Mae pob stryd gydag un enw wedi ei gofrestru yn unig.

2.6 Rhoddodd y Cyngor y dyddiadau cafodd yr arwyddion eu codi, a dyddiadau pryd gafodd yr arwyddion eu hadnewyddu, ac maent fel a ganlyn:

a. West Roedin – dwyieithog: 13/06/2016 / uniaith: 19/04/2021

b. Teynes – dwyieithog: 11/11/2013 / uniaith: 09/04/2021

c. Jule Road – 04/04/2019

2.7 Gofynnais pam bod testun 'leading to' i'w weld yn Saesneg yn unig ar rai o'r arwyddion. Dywedodd y Cyngor ei fod yn cydnabod bod yr arwyddion hyn wedi eu gosod yn anghywir, a'u bod wedi cael eu cywiro. Yn unol â safonau 61, 62, a 63, bydd unrhyw eiriau o arweiniad yn arddangos yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg unai uwchben neu i'r chwith o'r Saesneg. Anfonodd y Cyngor dystiolaeth yn cynnwys lluniau sy'n dangos bod y testun bellach wedi ei newid i fod yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn gyntaf.

2.8 Gofynnais pam bod rhai arwyddion yn dangos enwau Cymraeg a Saesneg, tra bod eraill yn dangos enwau Saesneg yn unig. Eglurodd y Cyngor bod polisi cyfredol y Cyngor yn datgan y canlynol (fy nghyfieithiad i gan fod y dystiolaeth yn Saesneg yn unig):

“Mae gan y Cyngor yr hawl i benderfynu ar enwau strydoedd ac mae’n annog y defnydd o enwau Cymraeg ym mhob datblygiad newydd a sicrhau nad yw’r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na’r Saesneg. Un enw swyddogol yn unig fydd gan y datblygiadau. Bydd arwyddion enwau strydoedd yn dangos un enw swyddogol yn unig, yn unol â Hysbysiad Cydymffurfio Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen a Deddf Iechyd Cyhoeddus 1925.”

2.9 O ganlyniad, dywed y Cyngor y bydd unrhyw arwydd sy’n cael ei adnewyddu ar ôl 2017 yn troi yn nol i’r un enw gafodd ei gofrestru yn swyddogol.

2.10 Mewn ymateb i gwestiwn 5, dywedodd y Cyngor y cafodd y Polisi Enwi a Rhifo cyfredol ei fabwysiadu yn 2017.

2.11 Ni allai’r Cyngor ddarparu copi o’r Polisi gan ei fod yn cael ei adolygu, ond darparodd y geiriad sy’n berthnasol i’r iaith Gymraeg. Yn ychwanegol i’r geiriad yn 2.8 uchod, mae’r polisi yn nodi (cyfieithiad fy hun):

“Mae’r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd barn pobl leol wrth ystyried enwau strydoedd newydd. Proses y Cyngor fydd mabwysiadu enw Cymraeg neu Saesneg sy’n gyson â threftadaeth a hanes yr ardal.”

2.12 Mewn ymateb i gwestiwn 7, rhoddodd y Cyngor yr ymateb canlynol i’r tri phwynt:

- a) Adolygiadau i’r polisi o safbwynt rhoi enwau Cymraeg/dwyieithog i strydoedd sy’n bodoli eisoes: Dydi’r Cyngor ddim yn annog newid enw stryd unwaith y mae wedi cael ei enwi. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y gall enwau gael eu newid, a byddai hynny angen cydsyniad holl breswylwyr y stryd.
- b) Adolygiadau i’r polisi o safbwynt rhoi enwau Cymraeg/dwyieithog i strydoedd newydd: Mae’r broses o enwi stryd newydd yn cychwyn gyda datblygwr yn gwneud cais gyda enw posib i’r stryd. Mae’r enw yn cael ei asesu o ran cynaladwyedd, a barn gan aelodau etholedig y Cyngor. Mae’r Cyngor yn sicrhau bod enwau Cymraeg i strydoedd yn unol gyda Mesur y Gymraeg (2011), sef o leiaf 50% yn Gymraeg. Rhoddai’r Cyngor ystadegau o enwau’r arwyddion newydd sydd wedi eu dewis yn y blynyddoedd diwethaf. E.e. yn ystod 2022/23, mae 2 enw newydd i stryd wedi mynd drwy’r broses gynllunio, a’r ddau wedi cael eu cymeradwyo gydag enwau Cymraeg.
- c) Adolygiadau i’r polisi o safbwynt arwyddion sy’n arddangos enwau strydoedd: O 2017 ymlaen, bydd arwyddion yn dangos un enw cofrestredig yn unig. Bydd arwyddion sydd eisoes yn bodoli yn ddwyieithog yn cael eu newid pan fyddent yn cael eu ailosod neu eu hadnewyddu.

2.13 Mewn ymateb i gwestiwn 8, dywedodd y Cyngor bod y polisi yn adnabod pwysigrwydd yr iaith Gymraeg, a bod y Cyngor yn annog datblygwyr i fabwysiadu enwau Cymraeg i ddatblygiadau newydd. Mae’r Cyngor yn nodi eto fod ei drefn o gyfieithu enwau strydoedd wedi gorfod newid ar ôl derbyn cyngor gan fy swyddfa oedd yn nodi mai’r enwau swyddogol yn unig ddylai gael ei roi ar arwydd.

- 2.14 Mewn ymateb i gwestiwn 9, dywedodd y Cyngor bod y ffaith mai un enw fydd ar arwyddion yn golygu y bydd yr iaith Gymraeg yn cael ei defnyddio yn ehangach, ac yn annog preswylwyr i ddefnyddio'r enw Cymraeg yn lle'r Saesneg.
- 2.15 Mewn ymateb i gwestiwn 10, dywedodd y Cyngor y bydd y polisi yn sicrhau bod mwy o enwau Cymraeg yn cael eu cofrestru gan y Cyngor, fydd wedyn yn cael eu defnyddio mewn dogfennau ac erthyglau all gael eu cynhyrchu.
- 2.16 Yn olaf, rhoddais gyfle i'r Cyngor gyflwyno unrhyw wybodaeth bellach i mi ei ystyried mewn perthynas â'r safonau dan sylw. Dywedodd y Cyngor ei fod yn cydnabod bod rhai camgymeriadau wedi eu gwneud wrth adnewyddu arwyddion. Er hyn, mae'n nodi bod ymateb cyflym y Cyngor i'w cywiro yn dangos y pwysigrwydd sy'n cael ei roi i'r dreftadaeth ieithyddol a diwylliannol yn yr ardal. Mae'r Gyfarwyddiaeth Economi a'r Amgylchedd wedi rhoi gwybod i holl Arolygwyr Priffyrdd i wirio arwyddion ffyrdd er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio, a hynny fel rhan o'u gwaith arferol.

3 Cydymffurfiaeth â safon 61: Asesiad, canfyddiadau a dyfarniad

Geiriad y safon

- 3.1 Dyma'r safon fel y mae'n ymddangos yn yr hysbysiad cydymffurfio a roddwyd i'r Cyngor:

Safon 61

Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd (gan gynnwys arwyddion dros dro) rhaid i unrhyw destun sy'n cael ei arddangos ar yr arwydd gael ei arddangos yn Gymraeg (pa un ai ar yr un arwydd sy'n arddangos y testun cyfatebol yn Saesneg neu ar arwydd ar wahân); ac os yw'r un testun yn cael ei arddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi beidio â thrin y testun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg.

Dehongliadau

- 3.2 Cod Ymarfer i Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015, 4.12.16:

"...Nid yw'r safonau hyn yn gosod dyletswydd ar gorff i gyfieithu enw stryd i'r Gymraeg er mwyn ei arddangos yn Gymraeg ar arwydd."

Gofynion y safon

- 3.3 Os yw corff yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd (gan gynnwys arwyddion dros dro), rhaid iddo sicrhau bod unrhyw destun ar yr arwydd hwnnw yn Gymraeg. Gall corff unai arddangos y testun Cymraeg ar yr un arwydd â'r testun cyfatebol Saesneg neu ar arwydd ar wahân. Rhaid i gorff beidio â thrin y testun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg ar yr arwydd dan sylw.

Ystyried cydymffurfiaeth â'r safon

- 3.4 Mae'r arwyddion sydd dan sylw'r gŵyn yma yn gofyn am ystyriaeth o ddau fath o destun. Yn gyntaf, mae angen ystyried yr enwau stryd eu hunain, megis West Roedin a Ladybench (enghreifftiau yn unig); ac yn ail, mae angen ystyried y testun 'leading to' ar rai o'r arwyddion.
- 3.5 Yn gyntaf, rwyf am ystyried yr enwau eu hunain. Mae'r gyfraith yn glir mai dim ond enwau sydd wedi eu cofrestru yn unol â Deddf Iechyd Cyhoeddus 1925 ddylai gael eu harddangos ar arwyddion strydoedd.¹
- 3.6 Mae Atodlen 1, Rhan 3, Paragraff 25 o Reoliadau Safonau'r Gymraeg yn datgymhwyso Safonau'r Gymraeg "*i'r graddau y mae deddfiad arall wedi penodi geiriad dogfen, arwydd, neu ffurflen a fyddai'n groes i'r gofyniad hwnnw.*" Golygai

¹ Deddf Iechyd Cyhoeddus 1925, Rhan 2, Adran 19(2), [Public Health Act 1925 \(legislation.gov.uk\)](https://legislation.gov.uk).

hyn bod unrhyw enw ar arwydd, sydd wedi ei gofrestru yn swyddogol dan y ddeddfwriaeth berthnasol, tu allan i gymhwysedd y safonau.

- 3.7 Yn yr achos yma, mae'r Cyngor wedi cadarnhau bod yr arwyddion sydd dan sylw'r gŵyn oll yn cynnwys yr enwau swyddogol, ac mae'r rheiny i gyd yn enwau Saesneg yn unig. Gan mai'r enwau Saesneg yma sydd wedi eu cofrestru, nid oes modd i mi orfodi'r Cyngor i newid yr enwau ar yr arwyddion i'r Gymraeg gan nad yw'r gyfraith yn caniatáu hynny. (Hoffwn nodi nad oes dim yn rhwystro'r Cyngor rhag cofrestru enwau Cymraeg i'r strydoedd yma, fyddai wedyn yn caniatáu iddo ychwanegu enwau Cymraeg i'r arwyddion).
- 3.8 O ganlyniad, nid oes methiant i gydymffurfio gyda'r safon yma mewn perthynas â'r enwau unigol ar yr arwyddion.
- 3.9 Yn ail, mae angen ystyried y testun 'leading to' sydd ar rai o'r arwyddion. Nid yw testun o'r fath yn enw ar stryd, ac felly mae hwn yn dod o dan ofynion y safonau. Mae'r Cyngor yn cadarnhau bod yr arwyddion dan sylw oll wedi eu codi ar ôl i'r safonau ddod i rym, ac felly maent yn ddarostyngedig i'r safonau. Mae'r Cyngor hefyd yn cydnabod ei fethiant mewn perthynas â'r testun 'leading to'.
- 3.10 Mae dau arwydd wedi methu cydymffurfio gyda'r safon yma, sef:
- a) "Taynes leading to Ladybench"
 - b) "West Roedin leading to Offway and East Roedin Shop"
- 3.11 Mae'r safon yn glir bod rhaid i unrhyw destun ar arwydd fod yn Gymraeg (unai ar yr un arwydd neu ar arwydd ar wahân). Gan fod y testun 'leading to' yn Saesneg yn unig, mae'r Cyngor wedi methu cydymffurfio.
- 3.12 Mae'n dda gweld bod y Cyngor wedi mynd ati eisoes i gywiro'r arwyddion yma, a bellach wedi ychwanegu'r geiriau Cymraeg, 'yn arwain i', i'r arwyddion dan sylw. Ni fyddaf yn gosod cam gorfodi penodol mewn perthynas â'r arwyddion yma felly, ond byddaf yn gosod camau gorfodi er mwyn sicrhau na fydd hyn yn digwydd eto yn y dyfodol. Mae'r Cyngor wedi sicrhau y bydd unrhyw destun ar arwyddion (tu hwnt i'r enw swyddogol) yn cael ei arddangos yn y ddwy iaith, gyda'r Gymraeg i gael ei darllen yn gyntaf.

Canfyddiadau

- 3.13 Mae safon 61 yn ei wneud yn ofynnol i'r Cyngor sicrhau bod unrhyw destun ar arwydd yn ymddangos yn Gymraeg.
- 3.14 Gan fod yr enwau ar yr arwyddion wedi eu cofrestru yn Saesneg yn unig, does dim methiant i gydymffurfio wedi bod. Serch hynny, mae'r testun 'leading to' yn bodoli yn Saesneg yn unig.
- 3.15 Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda'r safon.

Dyfarniad a fu methiant i gydymffurfio â safon 61

- 3.16 Dyfarnaf fod y Cyngor wedi methu cydymffurfio gyda safon 61 ar y sail bod testun Saesneg yn unig, 'leading to', yn ymddangos ar ei arwyddion.

Gweithredu pellach

- 3.17 Mae adran 77 Mesur y Gymraeg yn caniatáu i mi weithredu ymhellach lle bu methiant.
- 3.18 Yn achos fy nyfarniad fod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 61, byddaf yn gweithredu ymhellach at y diben o atal y methiant i gydymffurfio rhag parhau.
- 3.19 Mae manylion y gweithredu pellach isod.

Safon 61: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i'r Cyngor greu canllaw, neu ychwanegu at ganllaw sydd ganddo eisoes, er mwyn gwneud yn glir bod rhaid i unrhyw destun nad yw'n rhan o'r enw ar arwyddion strydoedd fod yn Gymraeg. Rhaid i'r Cyngor nodi y geiriau 'leading to' fel enghraifft o'r math yma o destun sydd angen bod yn Gymraeg er mwyn cydymffurfio.
2. Rhaid i'r Cyngor dynnu sylw'r adran sy'n gyfrifol am ddylunio arwyddion stryd at yr ymchwiliad yma, a'u hatgoffa o ofynion safon 61, gan gyfeirio at y canllaw adolygedig.
3. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 a 2.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

4 Cydymffurfiaeth â safon 62: Asesiad, canfyddiadau a dyfarniad

Geiriad y safon

- 4.1 Dyma'r safon fel y mae'n ymddangos yn yr hysbysiad cydymffurfio a roddwyd i'r Cyngor:

Safon 62

Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd (gan gynnwys arwyddion dros dro), a bod yr arwydd hwnnw'n cyfleu yr un wybodaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg, rhaid i'r testun Cymraeg gael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.

Dehongliadau

- 4.2 Cod Ymarfer i Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015, 4.13.9.

“Os yw corff yn rhoi'r testun Cymraeg a'r testun Saesneg cyfatebol ar yr un arwydd, byddai'r testun Cymraeg yn debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf fel arfer pe caiff ei osod ar y chwith neu uwchben unrhyw destun Saesneg cyfatebol, a hynny ar sail yr arfer safonol o ddarllen o'r chwith i'r dde ac o frig testun i'w waelod.”

Gofynion y safon

- 4.3 Os yw corff yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd, a bod yr arwydd yn cyfleu'r un wybodaeth yn Gymraeg a Saesneg, rhaid iddo sicrhau bod y testun Cymraeg yn cael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.

Ystyried cydymffurfiaeth â'r safon

- 4.4 Yr arwydd o fewn y gŵyn sy'n creu amheuaeth o fethiant gyda'r safon yma yw:
- a) 'Taynes leading to / yn arwain i Ladybench'
- 4.5 Gan fod testun Cymraeg a Saesneg ar yr arwydd yma, mae'n rhaid i'r Gymraeg gael ei osod mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf. Yn yr achos yma felly, dylai'r Gymraeg fod i'r chwith i'r Saesneg os am gael ei ddarllen yn gyntaf.
- 4.6 Gan fod y testun Cymraeg wedi ei osod i'r dde i'r testun Saesneg, ac felly ddim am gael ei ddarllen yn gyntaf, mae methiant i gydymffurfio yma.

Canfyddiadau

- 4.7 Mae safon 62 yn ei wneud yn ofynnol i'r Cyngor sicrhau bod testun Cymraeg yn cael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf ar arwydd sy'n cynnwys yr un wybodaeth yn Gymraeg a Saesneg.

- 4.8 Yn yr achos yma, mae'r testun Saesneg 'leading to' wedi ei osod cyn y testun Cymraeg 'yn arwain i', ac felly yn debygol o gael ei ddarllen cyn y testun Cymraeg.
- 4.9 Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda'r safon.

Dyfarniad a fu methiant i gydymffurfio â safon 62

- 4.10 Dyfarnaf fod y Cyngor wedi methu cydymffurfio gyda safon 62 gan fod testun Saesneg wedi ei osod cyn y testun Cymraeg ar yr arwydd, ac felly yn debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.

Gweithredu pellach

- 4.11 Mae adran 77 Mesur y Gymraeg yn caniatáu i mi weithredu ymhellach lle bu methiant.
- 4.12 Yn achos fy nyfarniad fod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 62, byddaf yn gweithredu ymhellach at y diben o atal y methiant i gydymffurfio rhag parhau.
- 4.13 Mae manylion y gweithredu pellach isod.

Safon 62: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i'r Cyngor ddangos tystiolaeth i mi ei fod wedi cywiro'r arwydd sydd dan sylw'r methiant yma i gydymffurfio, sef yr arwydd 'Taynes leading to / yn arwain i Ladybench', fel bod y testun Cymraeg yn cael ei osod mewn lleoliad y mae'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.
2. Rhaid i'r Cyngor greu canllaw, neu ychwanegu at ganllaw sydd ganddo eisoes, er mwyn gwneud yn glir bod rhaid i unrhyw arwydd sy'n cynnwys yr un wybodaeth yn Gymraeg a Saesneg gynnwys y testun Cymraeg mewn safle fel ei fod yn debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.
3. Rhaid i'r Cyngor dynnu sylw'r adran sy'n gyfrifol am ddylunio arwyddion stryd at yr ymchwiliad yma, a'u hatgoffa o ofynion safon 62, gan gyfeirio at y canllaw adolygedig.
4. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1-3.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

5 Cydymffurfiaeth â safon 63: Aseiad, canfyddiadau a dyfarniad

Geiriad y safon

- 5.1 Dyma'r safon fel y mae'n ymddangos yn yr hysbysiad cydymffurfio a roddwyd i'r Cyngor:

Safon 63

Rhaid ichi sicrhau bod y testun Cymraeg ar arwyddion yn gywir o ran ystyr a mynegiant.

Gofynion y safon

- 5.2 Rhaid i gorff sicrhau bod testun Cymraeg ar ei arwyddion yn gywir o ran ystyr a mynegiant. Gall hynny ymwneud â chynnwys yr arwydd; sillafiad y testun; cystrawen y testun; neu'r geiriau ac ymadroddion a ddefnyddir.

Ystyried cydymffurfiaeth â'r safon

- 5.3 Yr unig destun Cymraeg sy'n bodoli ac yn berthnasol i'r safon yma yw 'yn arwain i'. Mae'r testun yma yn gywir o ran ystyr a mynegiant, ac nid wyf wedi gweld tystiolaeth sy'n awgrymu i'r gwrthwyneb.
- 5.4 Nid oes methiant i gydymffurfio gyda'r safon yma felly.

Canfyddiadau

- 5.5 Mae safon 63 yn ei wneud yn ofynnol i'r Cyngor sicrhau bod testun Cymraeg ar ei arwyddion yn gywir o ran ystyr a mynegiant.
- 5.6 Yn yr achos yma, mae'r testun Cymraeg sydd ar arwyddion y Cyngor yn gywir o ran ystyr a mynegiant.
- 5.7 Nid oes methiant i gydymffurfio felly.

Dyfarniad a fu methiant i gydymffurfio â safon 63

- 5.8 Dyfarnaf nad yw'r Cyngor wedi methu cydymffurfio gyda safon 63 ar y sail bod y testun Cymraeg sydd ar yr arwyddion yn gywir o ran ystyr a mynegiant.

6 Cydymffurfiaeth â safon 88, 89, a 90: Aseiad, canfyddiadau a dyfarniad

Geiriad y safon

- 6.1 Dyma'r safon fel y mae'n ymddangos yn yr hysbysiad cydymffurfio a roddwyd i'r Cyngor:

Safon 88

Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried pa effeithiau, os o gwbl (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi yn eu cael ar –

- (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Safon 89

Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel y byddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar –

- (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Safon 90

Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel na fyddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar –

- (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Dehongliadau

- 6.2 Mae Atodlen 2, Rhan 2 o Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) yn nodi:

Yn Rhan 1 o'r Atodlen hon, ystyr "penderfyniad polisi" yw unrhyw benderfyniad a wneir gan gorff sy'n ymwneud ag arfer ei swyddogaethau neu gynnal ei fusnes neu ymgymeriad arall, ac mae hynny'n cynnwys, ymysg pethau eraill (ac fel y bo'n briodol i'r corff), penderfyniadau ynghylch—

- (a) cynnwys deddfwriaeth;
- (b) arfer pwerau statudol;
- (c) cynnwys datganiadau polisi;
- (ch) strategaethau neu gynlluniau strategol;
- (d) strwythurau mewnol.

Yn Rhan 1 o'r Atodlen hon, mae cyfeiriad at effeithiau positif neu effeithiau andwyol yn gyfeiriad at yr effeithiau hynny pa un ai ydynt yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.

- 6.3 Mae cymalau perthnasol i'r safonau yma yn adran 5 y Cod Ymarfer i Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015. Dan baragraff 5.1.22. ceir rhestr o enghreifftiau o benderfyniadau polisi, ac mae'n cynnwys penderfyniadau ynghylch "enwi strydoedd neu eiddo".

Gofynion y safon

- 6.4 Mae'r safonau hyn yn fodd o sicrhau bod sefydliadau yn ystyried effeithiau posib penderfyniadau polisi ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae hyn yn cynnwys ystyried sut ellid llunio'r polisi fel y byddai'n cael effeithiau positif neu fwy positif ar y ddau ffactor yma, a'r un peth yn nghyd-destun effeithiau andwyol neu llai andwyol.
- 6.5 Rhaid i sefydliadau wneud ymdrech gydwysbodol i ystyried effeithiau posib ar y Gymraeg.

Ystyried cydymffurfiaeth â'r safon

- 6.6 Y penderfyniad polisi sydd dan sylw'r ymchwiliad yma yw'r penderfyniad gan y Cyngor i addasu ei Bolisi Enwi a Rhifo Strydoedd yn 2017.
- 6.7 Mae'r polisi cyfredol yn cynnwys y canlynol mewn perthynas â'r iaith Gymraeg (fy nghyfieithiad i):

"Mae gan y Cyngor yr hawl i benderfynu ar enwau strydoedd ac mae'n annog y defnydd o enwau Cymraeg ym mhob datblygiad newydd a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Un enw swyddogol yn unig fydd gan y datblygiadau. Bydd arwyddion enwau strydoedd yn dangos un enw swyddogol yn unig, yn unol â Hysbysiad Cydymffurfio Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen a Deddf Iechyd Cyhoeddus 1925.

Ynghyd ag enwau strydoedd, mae gan y Cyngor restr gymeradwy o enwau llefydd sydd gydag enwau dwyieithog neu Gymraeg, yn unol ag argymhellion Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn 2009, 'safoni enwau llefydd', gafodd eu cymeradwyo gan y Cyngor yn 2012. Caiff rhain eu rhestru yn atodiad 4.

Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd barn pobl leol wrth ystyried enwau strydoedd newydd. Proses y Cyngor fydd mabwysiadu enw Cymraeg neu Saesneg sy'n gyson â threftadaeth a hanes yr ardal."

- 6.8 Cyn i'r Cyngor fabwysiadu'r polisi yma, roedd ganddo drefn o gyfieithu enwau strydoedd ei hun, ac roedd ei strydoedd yn cynnwys enwau Cymraeg a Saesneg ar arwyddion. Fel sydd wedi ei drafod eisoes yn yr adroddiad yma, dim ond enw sydd wedi ei gofrestru yn swyddogol sy'n cael ymddangos ar arwydd stryd. O ganlyniad, bu'n rhaid i'r Cyngor addasu ei bolisi, ac addasu ei arwyddion stryd i gynnwys yr enw swyddogol yn unig. Golygai hyn bod rhaid i'r Cyngor dynnu'r mwyafrif o enwau Cymraeg oddi ar yr arwyddion gan mai'r enwau Saesneg yn unig oedd wedi eu cofrestru.

- 6.9 Nid wyf wrth wneud y dyfarniad hwn yn cwestiynu rhesymeg y Cyngor dros newid ei bolisi, gan fy mod yn gyfarwydd â'r gyfraith a'r ffaith mai dim ond enwau swyddogol sy'n cael ymddangos ar arwyddion.
- 6.10 Rwyf fodd bynnag yn cwestiynu a wnaeth y Cyngor roi ystyriaeth gydwobodol i effaith ei benderfyniad i newid ei bolisi enwau strydoedd ar y Gymraeg.

Safon 88

- 6.11 Er mwyn cydymffurfio gyda'r safon yma, rhaid i'r Cyngor adnabod ac ystyried effeithiau posib ei bolisi enwi strydoedd ar y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- 6.12 Gofynnais am dystiolaeth gan y Cyngor i ddangos sut roddwyd ystyriaeth i effeithiau posib ar y Gymraeg wrth benderfynu ar y polisi newydd. Yn ei ymateb, mae'r Cyngor yn nodi bod y polisi yn cydnabod pwysigrwydd yr iaith Gymraeg, a bod y Cyngor yn annog datblygwyr i fabwysiadu enwau Cymraeg i ddatblygiadau newydd yn yr ardal.
- 6.13 Serch hyn, nid wyf o'r farn bod hyn yn cyfleu ystyriaeth gydwobodol o effaith y penderfyniad ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r dystiolaeth gan y Cyngor yn gyfyngedig, ac er i mi ofyn amdano, mae wedi methu darparu copi o'r Polisi Enwi a Rhifo Strydoedd yn ei chyfanrwydd. Nid yw wedi cyflwyno i mi unrhyw ddogfen na chofnodion cyfarfodydd sy'n dangos unrhyw drafodaeth o'r Gymraeg a wnaed wrth addasu'r polisi, ac felly rwy'n casglu nad yw'r Cyngor wedi cynnal asesiad o effaith y penderfyniad ar y Gymraeg.
- 6.14 Un effaith bositif gafodd ei adnabod gan y Cyngor yn ei dystiolaeth yw y bydd y polisi, gan ei fod yn gofyn am un enw swyddogol ar arwydd yn unig, yn golygu y bydd yr iaith Gymraeg yn cael ei defnyddio mewn cyd-destunau ehangach, ac yn annog preswylwyr i ddefnyddio'r enw Cymraeg yn lle'r enw Saesneg. Dydi'r Cyngor ddim yn ehangu ar hyn. Rhaid i mi bwysleisio hefyd nad oes dystiolaeth bod hyn wedi cael ei ystyried gan y Cyngor wrth addasu'r polisi.
- 6.15 Ni wnaeth, hyd y gwelaf i, adnabod unrhyw effaith negyddol. Ni wnaeth ystyried y gall yr un peth fod yn wir yn erbyn y Gymraeg pan fo'r enwau ar yr arwyddion yn Saesneg yn unig, ac felly yn annog y preswylwyr i ddefnyddio'r enwau Saesneg yn hytrach na'r Gymraeg.

Canfyddiadau safon 88

- 6.16 Er mwyn cydymffurfio gyda safon 88, rhaid i'r Cyngor adnabod ac ystyried effeithiau posib y cynnig, boed yn bositif neu'n andwyol, ar y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- 6.17 Nid yw'r Cyngor wedi dangos unrhyw dystiolaeth i mi sy'n profi bod ystyriaeth gydwobodol wedi ei roi i'r effeithiau posib ar y Gymraeg wrth addasu'r polisi enwi strydoedd.
- 6.18 Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda safon 88.

Dyfarniad a fu methiant i gydymffurfio â safon 88

- 6.19 Rwy'n dyfarnu bod y Cyngor wedi methu cydymffurfio gyda safon 88 gan iddo fethu darparu tystiolaeth sy'n dangos ei fod wedi rhoi ystyriaeth gydwybodol i effeithiau posib, boed yn bositif neu'n andwyol, y gallai'r addasiad i'r polisi enwi strydoedd ei gael ar y Gymraeg.

Safon 89

- 6.20 Er mwyn cydymffurfio gyda'r safon yma, rhaid i'r Cyngor ystyried sut y gellid llunio'r polisi fel y byddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau positif, neu fwy positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Pwysleisïaf mai ystyriaeth gydwybodol i effeithiau sydd ei angen yma, ac ni fyddai rheidwydd ar y Cyngor i weithredu fersiwn diwygiedig o'r polisi er mwyn cyflawni'r effeithiau mwy positif hynny, os oedd o'r farn nad oedd angen gwneud hynny.
- 6.21 Wrth ymateb i gwestiwn am y safon yma, mae'r Cyngor yn cyfeirio at yr un effaith bositif bosib o ddefnyddio enwau swyddogol yn unig ar yr arwyddion stryd, a hynny pan fo'r enw yn Gymraeg, ac felly bod preswylwyr yn cael eu hannog i ddefnyddio'r enw Cymraeg yn lle'r enw Saesneg. Mae hefyd yn datgan yn ei dystiolaeth ei fod am sicrhau bod mwy o enwau Cymraeg am gael eu cofrestru.
- 6.22 Nid yw hyn yn cyfleu ystyriaeth gydwybodol o sut i lunio'r polisi fel y byddai'n cael effeithiau positif neu fwy positif ar y Gymraeg. Gallai'r Cyngor fod wedi ystyried addasu'r polisi er mwyn cynyddu nifer yr enwau Cymraeg ar strydoedd yn y sir er mwyn cael effaith mwy bositif ar y Gymraeg. Nid yw datganiad i'r perwyl yma gan y Cyngor wrth ymateb i'r Hysbysiad Tystiolaeth yn cyfleu bod ystyriaeth gydwybodol wedi ei roi i'r opsiynau wrth addasu'r polisi.
- 6.23 Does dim tystiolaeth bellach yn cael ei ddarparu i brofi cydymffurfiaeth gyda'r safon yma.

Canfyddiadau safon 89

- 6.24 Er mwyn cydymffurfio gyda safon 89, rhaid i'r Cyngor ystyried sut y gellid llunio'r polisi fel y byddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau positif, neu fwy positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- 6.25 Nid yw'r Cyngor wedi llwyddo i ddangos tystiolaeth i mi sy'n profi bod ystyriaeth gydwybodol wedi ei roi i sut ellid llunio'r polisi fel y byddai'n cael effeithiau positif neu fwy positif ar y Gymraeg.
- 6.26 Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda safon 89.

Dyfarniad a fu methiant i gydymffurfio â safon 89

- 6.27 Rwy'n dyfarnu bod y Cyngor wedi methu cydymffurfio gyda safon 89 gan iddo fethu darparu tystiolaeth sy'n dangos ei fod wedi rhoi ystyriaeth gydwybodol i sut ellid llunio'r polisi enwau strydoedd fel y byddai'n cael effeithiau positif neu fwy positif ar y Gymraeg.

Safon 90

- 6.28 Er mwyn cydymffurfio gyda'r safon yma, rhaid i'r Cyngor ystyried sut y gellid llunio'r polisi fel na fyddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Fel dywedais uchod, pwysleisiaf mai ystyriaeth gydwybodol i effeithiau sydd ei angen yma, ac ni fyddai rheidwydd ar y Cyngor i weithredu fersiwn diwygiedig o'r polisi er mwyn cyflawni'r effeithiau llai andwyol hynny, os oedd o'r farn nad oedd angen gwneud hynny.
- 6.29 Nid yw'r Cyngor wedi adnabod unrhyw effaith negyddol clir yn ei dystiolaeth, a hynny er mai hanfod y polisi yw newid i ddefnyddio enwau swyddogol yn unig ar arwyddion. Mae hynny yn golygu bod unrhyw enw Cymraeg anffurfiol oedd yn arfer cael ei arddangos ar arwyddion yn cael ei ddisodli gydag enw Saesneg yn unig.
- 6.30 Gallai'r Cyngor fod wedi ystyried sut allai amddiffyn yr enwau Cymraeg answyddogol sydd i'r strydoedd, a thrwy hynny leihau effaith negyddol y polisi newydd. Fel sydd wedi ei grybwyll eisoes, gallai'r Cyngor fod wedi ystyried cofrestru'r enwau Cymraeg answyddogol, fyddai'n golygu y byddent yn cael parhau ar yr arwyddion.
- 6.31 Fel yr uchod, does dim tystiolaeth bellach yn cael ei ddarparu i brofi cydymffurfiaeth gyda'r safon yma.

Canfyddiadau safon 90

- 6.32 Er mwyn cydymffurfio gyda safon 90, rhaid i'r Cyngor ystyried sut y gellid llunio'r polisi fel na fyddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac a beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- 6.33 Nid yw'r Cyngor wedi llwyddo i ddangos tystiolaeth i mi sy'n profi bod ystyriaeth gydwybodol wedi ei roi i sut ellid llunio'r polisi fel na fyddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol ar y Gymraeg.
- 6.34 Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda safon 90.

Dyfarniad a fu methiant i gydymffurfio â safon 90

- 6.35 Dyfarnaf fod y Cyngor wedi methu cydymffurfio gyda safon 90 gan iddo fethu darparu tystiolaeth sy'n dangos ei fod wedi rhoi ystyriaeth gydwybodol i sut ellid llunio'r polisi enwau strydoedd fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol ar y Gymraeg.

Sylwadau cyffredinol

- 6.36 Nid yw tystiolaeth y Cyngor yn dangos ei fod wedi rhoi unrhyw ystyriaeth gydwybodol i effaith ei benderfyniad i addasu'r polisi dan sylw ar y Gymraeg.
- 6.37 Nid wyf chwaith wedi fy modloni bod y Cyngor yn ymwybodol o'r gofynion o fewn y safonau wrth lunio neu addasu penderfyniad polisi. Tynnaf sylw'r Cyngor felly at y [Cod Ymarfer](#), sy'n cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol ac arweiniad clir ar sut i gydymffurfio gyda'r safonau yma. Dylai'r Cyngor ystyried y ddogfen yma wrth gyflawni'r camau gorfodi sydd wedi eu gosod isod.

Gweithredu pellach

- 6.38 Mae adran 77 Mesur y Gymraeg yn caniatáu i mi weithredu ymhellach lle bu methiant.
- 6.39 Yn achos fy nyfarniad fod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safonau 88, 89, a 90, byddaf yn gweithredu ymhellach at y diben o atal y methiant i gydymffurfio rhag parhau.
- 6.40 Mae manylion y gweithredu pellach isod.


Safonau 88, 89, a 90: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i'r Cyngor gynnal adolygiad o'i broses fewnol o lunio/addasu polisïau er mwyn sicrhau bod proses gadarn mewn lle sy'n sicrhau cydymffurfiaeth gyda safonau 88, 89, a 90.
2. Rhaid i'r Cyngor greu canllaw mewnol i'w staff sy'n egluro gofynion safonau 88, 89 a 90 wrth lunio neu addasu penderfyniad polisi. Rhaid i'r canllaw gyfleu bod rhaid i'r Cyngor roi ystyriaeth gydwybodol i'r canlynol wrth lunio neu addasu unrhyw benderfyniad polisi, a hynny yng nghyd-destun cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg:
 - a) Pa effeithiau, boed yn positif neu'n andwyol, y byddai'r penderfyniad polisi yn eu cael ar y Gymraeg;
 - b) Sut y gellid gwneud y penderfyniad fel ei fod yn cael effeithiau positif neu mwy positif ar y Gymraeg;
 - c) Sut y gellid gwneud y penderfyniad fel nad yw'n cael effeithiau andwyol, neu fel ei fod yn cael effeithiau llai andwyol, ar y Gymraeg.
3. Rhaid i'r Cyngor ddarparu hyfforddiant i'r holl staff sy'n ymwneud â'r broses o lunio/addasu polisïau'r Cyngor, sy'n canolbwyntio ar ofynion safonau 88, 89, a 90. Rhaid codi ymwybyddiaeth y staff hynny at y canllaw uchod, a sicrhau eu bod yn ymwybodol o holl ofynion safonau 88, 89 a 90.

Safonau 88, 89, a 90: Gofyniad i roi cyhoeddusrwydd i'r methiant i gydymffurfio yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

4. Rwy'n ei wneud yn ofynnol i'r Cyngor roi cyhoeddusrwydd i'w fethiant i gydymffurfio gyda safonau 88, 89 a 90. Mae hyn yn cynnwys cyhoeddi datganiad yn dweud bod y Cyngor wedi methu cydymffurfio gyda'r safonau perthnasol, yn ogystal â chyhoeddi'r adroddiad terfynol ar yr ymchwiliad mewn man amlwg ar ei brif wefan.
5. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg eu bod wedi cwblhau camau gorfodi 1-4.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Hysbysiad penderfynu

At: Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Rhif achos: CS1061

Dyddiad: 04/12/2023

Dyfarniad

Yn sgil derbyn cwyn gan aelod o'r cyhoedd, cynhaliais ymchwiliad dan adran 71 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 er mwyn dyfarnu a fu methiant gan y Cyngor i gydymffurfio ag un neu fwy o safonau'r Gymraeg y mae dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.

Mae'r safonau oedd yn berthnasol i'r ymchwiliad fel a ganlyn:

Safon 61

Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd (gan gynnwys arwyddion dros dro) rhaid i unrhyw destun sy'n cael ei arddangos ar yr arwydd gael ei arddangos yn Gymraeg (pa un ai ar yr un arwydd sy'n arddangos y testun cyfatebol yn Saesneg neu ar arwydd ar wahân); ac os yw'r un testun yn cael ei arddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi beidio â thrin y testun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg.

Diwrnod gosod: 30/3/2016

Safon 62

Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd (gan gynnwys arwyddion dros dro), a bod yr arwydd hwnnw'n cyfleu yr un wybodaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg, rhaid i'r testun Cymraeg gael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.

Diwrnod gosod: 30/3/2016

Safon 63

Rhaid ichi sicrhau bod y testun Cymraeg ar arwyddion yn gywir o ran ystyr a mynegiant.

Diwrnod gosod: 30/3/2016

Safon 88

Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried pa effeithiau, os o gwbl (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi yn eu cael ar –

- (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Diwrnod gosod: 30/9/2016

Safon 89

Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel y byddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar –

- (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Diwrnod gosod: 30/9/2016

Safon 90

Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel na fyddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar –

- (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Diwrnod gosod: 30/9/201

Dyfarnaf fod y Cyngor wedi methu cydymffurfio â safon 61.

Sail fy nyfarniad yw bod testun Saesneg yn unig, 'leading to', yn ymddangos ar ei arwyddion.

Dyfarnaf fod y Cyngor wedi methu cydymffurfio â safon 62.

Sail fy nyfarniad yw bod testun Saesneg wedi ei osod cyn y testun Cymraeg ar yr arwydd, ac felly yn debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.

Dyfarnaf nad yw'r Cyngor wedi methu cydymffurfio â safon 63.

Sail fy nyfarniad yw bod y testun Cymraeg sydd ar yr arwyddion yn gywir o ran ystyr a mynegiant.

Dyfarnaf fod y Cyngor wedi methu cydymffurfio â safon 88.

Sail fy nyfarniad yw ei fod wedi methu darparu tystiolaeth sy'n dangos ei fod wedi rhoi ystyriaeth gydwysbodol i effeithiau posib, boed yn bositif neu'n andwyol, y gallai'r addasiad i'r polisi enwi strydoedd ei gael ar y Gymraeg.

Dyfarnaf fod y Cyngor wedi methu cydymffurfio â safon 89.

Sail fy nyfarniad yw ei fod wedi methu darparu tystiolaeth sy'n dangos ei fod wedi rhoi

ystyriaeth gydwbybodol i sut ellid llunio'r polisi enwau strydoedd fel y byddai'n cael effeithiau positif neu fwy positif ar y Gymraeg.

Dyfarnaf fod y Cyngor wedi methu cydymffurfio â safon 90.

Sail fy nyfarniad yw ei fod wedi methu darparu tystiolaeth sy'n dangos ei fod wedi rhoi ystyriaeth gydwbybodol i sut ellid llunio'r polisi enwau strydoedd fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol ar y Gymraeg.

Gweithredu pellach

Yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg rwyf wedi penderfynu gweithredu ymhellach at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd.

Mae manylion y gweithredu pellach isod.

Safon 61: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i'r Cyngor greu canllaw, neu ychwanegu at ganllaw sydd ganddo eisoes, er mwyn gwneud yn glir bod rhaid i unrhyw destun nad yw'n rhan o'r enw ar arwyddion strydoedd fod yn Gymraeg. Rhaid i'r Cyngor nodi y geiriau 'leading to' fel enghraifft o'r math yma o destun sydd angen bod yn Gymraeg er mwyn cydymffurfio.
2. Rhaid i'r Cyngor dynnu sylw'r adran sy'n gyfrifol am ddylunio arwyddion stryd at yr ymchwiliad yma, a'u hatgoffa o ofynion safon 61, gan gyfeirio at y canllaw adolygedig.
3. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 a 2.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safon 62: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i'r Cyngor ddangos tystiolaeth i mi ei fod wedi cywiro'r arwydd sydd dan sylw'r methiant yma i gydymffurfio, sef yr arwydd 'Taynes leading to / yn arwain i Ladybench', fel bod y testun Cymraeg yn cael ei osod mewn lleoliad y mae'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.
2. Rhaid i'r Cyngor greu canllaw, neu ychwanegu at ganllaw sydd ganddo eisoes, er mwyn gwneud yn glir bod rhaid i unrhyw arwydd sy'n cynnwys yr un wybodaeth yn Gymraeg a Saesneg gynnwys y testun Cymraeg mewn safle fel ei fod yn debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.
3. Rhaid i'r Cyngor dynnu sylw'r adran sy'n gyfrifol am ddylunio arwyddion stryd at yr ymchwiliad yma, a'u hatgoffa o ofynion safon 62, gan gyfeirio at y canllaw adolygedig.

4. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1-3.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safonau 88, 89, a 90: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i'r Cyngor gynnal adolygiad o'i broses fewnol o lunio/addasu polisïau er mwyn sicrhau bod proses gadarn mewn lle sy'n sicrhau cydymffurfiaeth gyda safonau 88, 89, a 90 wrth lunio neu addasu penderfyniad polisi.
2. Rhaid i'r Cyngor greu canllaw mewnol i'w staff sy'n egluro gofynion safonau 88, 89 a 90 wrth lunio neu addasu penderfyniad polisi. Rhaid i'r canllaw gyfleu bod rhaid i'r Cyngor roi ystyriaeth gydwybodol i'r canlynol wrth lunio neu addasu unrhyw benderfyniad polisi, a hynny yng nghyd-destun cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg:
 - d) Pa effeithiau, boed yn bositif neu'n andwyol, y byddai'r penderfyniad polisi yn eu cael ar y Gymraeg;
 - e) Sut y gellid gwneud y penderfyniad fel ei fod yn cael effeithiau positif neu mwy positif ar y Gymraeg;
 - f) Sut y gellid gwneud y penderfyniad fel nad yw'n cael effeithiau andwyol, neu fel ei fod yn cael effeithiau llai andwyol, ar y Gymraeg.
3. Rhaid i'r Cyngor ddarparu hyfforddiant i'r holl staff sy'n ymwneud â'r broses o lunio/addasu polisïau'r Cyngor, sy'n canolbwyntio ar ofynion safonau 88, 89, a 90. Rhaid codi ymwybyddiaeth y staff hynny at y canllaw uchod, a sicrhau eu bod yn ymwybodol o holl ofynion safonau 88, 89 a 90.

Safonau 88, 89, a 90: Gofyniad i roi cyhoeddusrwydd i'r methiant i gydymffurfio yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

4. Rwy'n ei wneud yn ofynnol i'r Cyngor roi cyhoeddusrwydd i'w fethiant i gydymffurfio gyda safonau 88, 89 a 90. Mae hyn yn cynnwys cyhoeddi datganiad yn dweud bod y Cyngor wedi methu cydymffurfio gyda'r safonau perthnasol, yn ogystal â chyhoeddi'r adroddiad terfynol ar yr ymchwiliad mewn man amlwg ar ei brif wefan.
5. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg eu bod wedi cwblhau camau gorfodi 1-3.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Hawl i apelio i Dribiwnlys y Gymraeg

Pan fo'r Comisiynydd wedi dyfarnu na fu methiant i gydymffurfio â safon, gall yr achwynnydd apelio i Dribiwnlys y Gymraeg. Pan fo'r Comisiynydd yn wedi dyfarnu bod person wedi methu â chydymffurfio â gofyniad perthnasol, gall y person hwnnw apelio i

Dribiwnlys y Gymraeg. Yn ogystal, pan fo'r Comisiynydd wedi penderfynu cymryd camau gorfodi mewn cysylltiad â methiant, gall y Cyngor apelio i Dribiwnlys y Gymraeg ar y sail fod y camau gorfodi'n afresymol neu'n anghymesur. Ceir rhagor o wybodaeth am y broses yn y daflen amgaeedig, ac ar wefan y Tribiwnlys.

Canlyniadau peidio cydymffurfio â gofyniad mewn hysbysiad penderfynu

Os yw'r Cyngor yn methu â chydymffurfio ag unrhyw ofyniad yn yr hysbysiad penderfynu hwn, caiff y Comisiynodd wneud cais i lys sirol am orchymyn yn ei gwneud yn ofynnol iddo gydymffurfio.